# DEDDF ARCHWILIO CYHOEDDUS (CYMRU) 2013

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

***Atodlen 1* – *Ymgorfforí Swyddfa Archwilio Cymru***

***Paragraffau 10 i 12* – *Dod â phenodiadau i ben***

65. Caiff Cadeirydd ac aelodau anweithredol SAC ymddiswyddo o'u swyddi ar unrhyw adeg drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Cynulliad (paragraff 10).

66. Caiff y Cynulliad ddod â phenodiad aelod anweithredol SAC i ben ar y seiliau a nodir ym mharagraff 11(1). Caiff y Cynulliad ddod â phenodiad Cadeirydd SAC i ben (ar y seiliau a nodir ym mharagraff 12(3)), ond dim ond ar ôl ymgynghori â'r Prif Weinidog. Caiff ymgynghori â phersonau eraill hefyd. Nid yw dod â phenodiad y Cadeirydd i ben yn golygu'n awtomatig fod ei benodiad yn aelod anweithredol o SAC yn dod i ben. Os yw aelodaeth anweithredol y person sy'n Gadeirydd yn dod i ben, yna bydd y person hwnnw yn colli ei swydd fel Cadeirydd hefyd.